

Polisi Preifatrwydd Cwsmer

Cyflwyniad

Mae Portal yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i breifatrwydd ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid, ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu'r wybodaeth bersonol y maent yn ei rhannu gyda ni trwy'n gweithgarwch busnes a thrwy broses teg a thryloyw. Yn y Polisi Preifatrwydd, cyflwynir sut y bydd y cwmni'n rheoli ac yn diogelu'r data personol y mae'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid yn ei roi i ni.

Da chi, darllenwch y polisi hwn yn ofalus, gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol;

- Pwy yw Rheolwr Data/Swyddog Diogelu Data Portal, a'u manylion cyswllt
- Yr wybodaeth yr ydym yn ei chasglu amdanoch chi
- Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth
- Ein sylfaen gyfreithiol/gytundebol ar gyfer prosesu'ch data
- Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth
- Ble y mae'ch gwybodaeth yn cael ei storio a sut y caiff ei chadw'n ddiogel
- Unrhyw wybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo at drydydd partïon a'r mesurau diogelu sydd ar waith
- Am ba hyd y cedwir eich gwybodaeth
- Eich hawliau
- Sut i gwyno i ni a'n hawdurdod goruchwyliol

Pwy ydyn ni?

At ddiben y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, mae Hyfforddiant Portal yn gweithredu fel y sawl sy'n prosesu ac yn rheoli yn ddibynol ar weithgarwch busnes.

Cwmni hyfforddiant dwyieithog yw Portal Training ac mae'n cynnig rhaglenni hyfforddiant wedi'u hariannu'n llwyr a rhaglenni hyfforddiant a ariennir gydag arian preifat, mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Mae Portal hefyd yn gwerthu ac yn sicrhau ansawdd rhaglen BTEC Llwyddo (cymhwyster DPCh) i amrywiaeth o gwsmeriaid ledled Cymru a Lloegr.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y polisi hwn, sut yr ydym yn defnyddio/prosesu'ch data personol neu sut i ymarfer eich hawliau o ran unioni data, dileu data, eich hawl i wrthwynebu, eich hawl i gyfyngu ar brosesu'ch data, eich hawl i weld eich data a/neu'ch hawl i symud eich data:

E-bostiwch clare.jeffries@portaltraining.co.uk

neu ysgrifennwch atom, yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddog Diogelu Data
Portal Training
Ocean Park House
East Tyndall Street
Cardiff
CF24 5ET

Pa wybodaeth ydyn ni'n ei chasglu?

InWrth ddarparu'n gwasanaethau ar eich cyfer, byddwn yn casglu ac yn storio unrhyw wybodaeth bersonol yr ydych yn ei rhoi i ni. Byddwn yn cadw cofnod o'r wybodaeth ganlynol mewn perthynas â'ch data personol;

- Eich enw
- Cyfeiriad
- Dyddiad geni
- Cyfeiriad e-bost
- Rhif ffôn
- Manylion talu (lle y bo'n berthnasol)
- Anabledd, anghenion dysgu ychwanegol neu ofynion iechyd (er mwyn darparu'n gwasanaethau).

Pan fyddwch chi'n rhyngweithio gyda llwyfannau digidol y cwmni, yn creu cyfrif ar-lein, yn cofrestru i dderbyn cyfathrebu ynghylch marchnata gennym, yn llenwi un o'n ffurflenni ar-lein neu ar bapur neu'n rhoi'ch gwybodaeth bersonol i ni'n uniongyrchol, efallai y byddwn yn casglu ac yn storio unrhyw wybodaeth bersonol a geir gennych. Efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu gwasanaethau yr ydych yn gofyn i ni amdanynt, i lunio proffiliau a/neu i wneud ymchwil ystadegol.

Pam ydyn ni'n casglu'ch gwybodaeth?

Rydym yn casglu gwybodaeth gennych i'n galluogi ni i ddarparu'n gwasanaethau i chi fel cwsmer neu randdeiliad i'r cwmni. Byddwn yn cofnodi'r holl wybodaeth bersonol yr ydych yn ei rhoi i ni ac yn ei defnyddio a'i diogelu yn unol â deddfwriaeth data perthnasol a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Yn gyffredinol, byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth at y dibenion canlynol:

- I weinyddu ac i ddarparu gwasanaethau yr ydych yn gofyn amdanynt neu yr ydych wedi mynegi diddordeb ynddynt
- Er mwyn cadw cofnodion mewnol ac i olrhain cynnydd yn erbyn y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu
- Byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, gogyfer â'r gwaith o gyllido, cynllunio, monitro ac arolygu dysgu, ac i lunio cyhoeddiadau ystadegol.
- Byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon gyda sefydliadau dyfarnu, er mwyn gweinyddu'r broses o gyflwyno rhaglenni dysgu
- I gyfathrebu â chi am y gwasanaethau yr ydych yn gofyn amdanynt neu'n mynegi diddordeb ynddynt
- I bersonoli a/neu deilwra unrhyw gyfathrebu rhyngom ni a chi
- I gasglu adborth ar ein gwasanaethau
- At ddibenion proffilio, i gynorthwyo gydag ymchwil ystadegol

Bydd Llywodraeth Cymru a Darparwyr Arweiniol hefyd yn defnyddio'ch gwybodaeth yn y ffyrdd canlynol;

- Gan drydydd partïon dethol, gan gynnwys sefydliadau ymchwil cymdeithasol, i ymchwilio, dadansoddi neu fonitro cyfleoedd cyfartal mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant.
- Gan y Darparwyr Arweiniol, Llywodraeth Cymru a thrydydd partïon sy'n gweithredu ar ei rhan, i gynorthwyo gyda'r broses o gysylltu'ch cofnodion at ffynonellau data eraill at ddiben ymchwil ystadegol.
- Efallai y bydd Llywodraeth Cymru'n rhannu'ch enw, dyddiad geni, cyfeiriad a chod post gyda swyddogion cofrestru etholiadol sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau cyfateb data pilot i wella cywirdeb cofrestrau etholiadol.
- Efallai y trosglwyddir eich manylion cyswllt at contractwyr sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru), i gynnal cyfweiliadau neu arolygon ymhlith dysgwyr presennol a'r rheiny sydd wedi bod yn ddysgwyr, fel rhan o werthusiadau ffurfiol rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Bydd contractwyr yn cysylltu â sampl o unigolion.
- Efallai y cysylltir â chi i ofyn i chi gymryd rhan mewn gwerthusiad o'ch profiad personol o weithgaredd dysgu. Os cysylltir â chi, esbonnir diben y cyfweiliad neu'r arolwg wrthoch chi a chewch ddewis cytuno i gymryd rhan neu wrthod. Bydd contractwyr yn defnyddio'ch manylion at ddiben cynnal y gwerthusiad yn unig, a hynny yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Yna, caiff eich manylion eu dileu unwaith fydd y contract gwerthuso wedi dod i ben.

Efallai y byddwn hefyd yn rhannu'ch gwybodaeth am resymau cyfreithiol os ydym yn credu, ymhob ffydd, fod angen mynediad at yr wybodaeth a bod angen ei defnyddio, ei chadw neu ei datgelu er mwyn:

- Bodloni ceisiadau gan gyrff y llywodraeth neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith mewn perthynas ag unrhyw ymchwiliadau, i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddarganfod neu atal unrhyw weithgarwch anghyfreithlon.
- Darganfod neu atal twyll neu faterion diogelwch neu dechnegol.
- Cynorthwyo trydydd partïon eraill gydag achosion cyfreithiol

Marchnata

Rydyn ni'n hoffi diweddarau'n cwsmeriaid ynghylch y cynnyrch a'r gwasanaethau a gynigir gennym, a chyfathrebu cyfleoedd a allai fod o ddiddordeb i chi. Er mwyn ein galluogi ni i wneud hyn, mae angen i chi optio i mewn trwy glicio ar ein gwefan neu lenwi'r hysbysiad optio i mewn sy'n atodol ar ddiwedd y polisi hwn (atodiad un).

Gallwch optio allan rhag derbyn gwybodaeth am farchnata gennym ar unrhyw adeg. Os nad ydych am i ni gysylltu â chi mwyach at ddibenion marchnata, ewch at dudalen ein polisi preifatrwydd ar ein gwefan i optio allan ar unrhyw adeg.

Am ba hyd fyddwn ni'n cadw'ch data personol?

Byddwn yn cadw data personol yn unol â'n gofynion cytundebol. Ar gyfer dysgwyr a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mae gennym ymrwymiad cytundebol i gadw data dysgwyr hyd nes 31/12/2031.

Ar gyfer dysgwyr sydd wedi derbyn cyllid preifat ar gyfer eu rhaglenni hyfforddiant neu wedi cyllido'u rhaglenni hyfforddiant eu hunain, er enghraifft dysgwyr ILM Lefel 7 a/neu ddysgwyr y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, cedwir y data yn unol â chanllawiau'r sefydliad dyfarnu, am o leiaf dair blynedd ar ôl dyddiad terfyn eich rhaglen.

Ble'r ydyn ni'n storio'ch data personol a sut y caiff ei ddiogelu?

Cymerwn gamau rhesymol i ddiogelu'ch data. Dilynnwch gyfres o weithdrefnau sydd ar waith i ddelio ag unrhyw amheuaeth o dorri diogelwch. Mae polisiâu pellach ynghylch sut y mae Portal yn rheoli Diogelwch Gwybodaeth, ar gael ar gais.

Diogelwch eich gwybodaeth personol

Rhown ystyriaeth ddifrifol i ddiogelwch eich gwybodaeth a gweithiwn yn galed i sicrhau y caiff ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig. Mae gennym furiau gwarchod a gwarchodaeth briodol ar waith ar gyfer y cronfeydd data sy'n dal eich data personol, a cheir mynediad at yr wybodaeth hon yn unol â Pholisi Rheoli Mynediad y cwmni'n unig. Yn ychwanegol at hyn, mae gennym fesurau rheoli mynediad corfforol ar waith o fewn ein hadeiladau, a rhoddir mynediad at eich data i'r cyflogedigion hynny y mae arnynt ei angen er mwyn gwneud eu gwaith, a neb arall. Gellir disgyblu cyflogedigion neu derfynu eu contractau os nad ydynt yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hyn.

Ni fyddwn yn gwerthu, yn dosbarthu nac yn prydlesu eich data personol i drydydd partion onid oes gennym eich caniatâd eglur neu onid oes gofyn i ni wneud hynny'n gyfreithiol.

Gallwch ofyn am fanylion y data personol sydd gennym amdanoch. Gallwch wneud hyn trwy ddilyn Polisi Hawliau Mynediad Portal sydd ar gael ar gais. Os credwch fod unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch yn anghywir neu'n anghyflawn, da chi ysgrifennwch atom neu anfonwch e-bost atom cyn gynted â phosib, gan ddefnyddio'r manylion a restrir yn yr adran ar sut i gysylltu â ni yn y polisi hwn.

Briwsion

Fel llawer o wefannau eraill, defnyddiwn friwsion technoleg cyffredin ar ein gwefan. Mae briwsion yn ffeiliau bach sy'n gofyn am ganiatâd i gael eu gosod ar eich cyfrifiadur. Mae'r ffeiliau hyn yn ein galluogi i ddadansoddi gwe-draffig pob ymweliad â'n gwefan. Mae'r briwsion hyn yn ein helpu i ddadansoddi data am ein gwefan ac i wella'n gwefan, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fodloni anghenion ein cwsmeriaid. Defnyddiwn yr wybodaeth hon at ddibenion dadansoddi ystadegol yn unig ac yna caiff y data ei ddileu oddi ar y system.

Gallwch ddewis derbyn neu wrthod y briwsion hyn trwy osodiadau porwr eich gwefan a chewch wrthod briwsion os mai dyna yw'ch dymuniad. Fodd bynnag, gallai hyn effeithio ar eich defnydd o'r wefan.

Eich hawliau

Dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, mae gennych amrywiol hawliau o ran ein defnydd o'ch data personol, ac mae'r rhain wedi eu rhestru isod;

- Yr hawl i weld unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch
- Yr hawl i gywiro unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch
- Yr hawl i ofyn i ni ddileu unrhyw ddata personol sydd gennym amdanoch
- Yr hawl i ofyn i ni beidio â phrosesu'ch data personol
- Yr hawl i gyfyngu ar unrhyw brosesu pellach ar eich data
- Yr hawl i symud eich data

I ddefnyddio unrhyw rai o'r hawliau hyn, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data Portal sydd wedi'i enwi o fewn y polisi hwn.

Cwynion

Os ydych yn teimlo y torrwyd eich hawliau ar unrhyw achlysur, ac nid ydym wedi llwyddo i ddatrys y mater a godwyd gennych, gallwch gwyno i Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â hyn, rhowch glic ar <https://ico.org.uk>.

Newidiadau i'n Polisi

Dewch yn ôl at ein gwefan yn rheolaidd i weld unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau i'r polisi hwn. Caiff y polisi hwn ei adolygu unwaith y flwyddyn, o leiaf.

Atodiad 1: Optio i mewn

Trwy gwblhau'r ffurflen isod, cadarnheir bod cleientiaid wedi darllen Polisi Preifatrwydd Cwsmeriaid Portal, wedi ei ddeall ac wedi cytuno i optio i mewn i'r gronfa ddata.

Fel y gwyddoch chi, yma yn Portal, rydyn ni'n awyddus i gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'n cwsmeriaid/partneriaid, er mwyn darparu'r cymorth a'r gwasanaeth gorau..

Er mwyn parhau i fod ar ein cronfa ddata, ac i'n galluogi i gysylltu â chi yn y dull cyfathrebu sydd orau gennych, llenwch y ffurflen isod os gwelwch yn dda a thiciwch y bocs hwn i OPTIO I MEWN: ☐

Ticiwch y bocsys perthnasol ar gyfer cyfathrebu trwy'r: ☐ Post ☐ Email ☐ Ffôn ☐ Neges Destun:

Enw:

E-bost:

Ffôn:

Llofnod: (rhowch eich Ynyddau os ydych yn llenwi'r ffurflen ar-lein)

Dyddiad:

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd gennym gyfleoedd i'w cynnig sydd o ddiddordeb i chi ac a fydd yn cael eu cyfathrebu trwy ddulliau cyfathrebu allanol gan gynnwys e-fwletinau, cylchlythyron, arolygon a/neu e-byst neu alwadau ffôn uniongyrchol (Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol).